Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir – Cynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydliadau Lletya Cŵn yn y Cartref – Amodau Trwydded**

**Fersiwn 1 diweddarwyd 14.2.23**

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Oni bai y nodir yn wahanol, mae'r amodau hyn yn berthnasol i bob adeilad ac ardal y mae gan gŵn fynediad iddynt a/neu sy'n cael eu defnyddio mewn perthynas â lletya cŵn.

**1.2** Fel arfer nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer lletya anifeiliaid yn y cartref ar y raddfa a gynigir. Fodd bynnag, os derbynnir cwynion am sŵn penodol neu arogleuon cas, yna mae gan y cyngor yr hawl i ystyried a oes newid defnydd wedi bod sy'n gofyn am gyflwyno cais cynllunio.

**1.3** Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod gan y sefydliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac addas, a lle y bo angen, yswiriant atebolrwydd cyflogwyr digonol ac addas.

**1.4** Rhaid peidio â derbyn unrhyw gi a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 ar gyfer lletya yn y cartref (Daeargi Pydew, Tosa Japaneaidd, Dogo Argentino a Fila Brasileiro). Bydd unrhyw Hybridiau yn cael eu gwirio gyda Swyddog Deddfwriaeth yr Heddlu.

**1.5** Nid yw hybridiau cŵn sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 (e.e. Hybridiau Bleiddiaid) i'w derbyn ar gyfer lletya yn y cartref.

**1.6** Rhaid peidio â chydletya cŵn gwryw heb eu sbaddu a geist sydd yn eu tymor neu y mae disgwyl iddynt fod yn eu tymor yn ystod y cyfnod lletya. Mae hyn yn berthnasol i gŵn sy'n lletya a rhai preswyl. Caniateir i gŵn iau na 6 mis oed gael llety ar yr amod eu bod wedi'u brechu'n briodol ac na chafwyd trafferthion yn ystod y cyfnod prawf o gymdeithasu.

## 2. Arddangos Trwydded

**2.1** Dylid arddangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig yn addas mewn man sy'n amlwg i'r cyhoedd yn, ar neu ar draws y safle neu sicrhau ei fod ar gael i bob lletywr.

**2.2** Dylid arddangos copi o’r dystysgrif yswiriant, neu dylai fod ar gael i letywyr.

### 3. Nifer yr Anifeiliaid

**3.1** Rhaid hysbysu'r Awdurdod Lleol am bob anifail sy'n byw yn yr eiddo yn barhaol ac am unrhyw newidiadau. Rhaid i bob cleient gael gwybod am yr anifeiliaid hyn naill ai'n ysgrifenedig neu fel rhan o'u contract a chadw cofnod o hyn. Rhaid i gyfnod cynefino treial ddigwydd a chael ei ddogfennu.

**3.2** Y swyddog archwilio fydd yn penderfynu uchafswm y cŵn a gedwir ar unrhyw un adeg, a bydd manylion hynny ar y drwydded. Pan fo cais i roi llety yn y cartref i fwy nag un ci, caiff y nifer a ganiateir ei benderfynu yn dilyn archwiliad, ac mewn rhai achosion Swyddog o’r Awdurdod Lleol ac Arolygydd Milfeddygol fydd yn cynnal yr archwiliad, dan gyfarwyddyd yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn ar gost yr ymgeisydd, neu gellir gwrthod y cais.

**3.3** Pan fydd cŵn o fwy nag un cartref yn cael eu lletya ar unrhyw un adeg, mae’r gofynion ychwanegol yma’n berthnasol:

- Rhaid cael cytundeb ysgrifenedig gan bob cartref yn cadarnhau eu bod yn cydsynio i’w cŵn gael eu lletya gydag eraill, a dylai fod ar gael i’w archwilio.
- Rhaid cynnal sesiwn gynefino dreial i’r holl gŵn cyn iddynt ddod i aros, a rhaid ei chofnodi.
- Pan nad ydynt dan oruchwyliaeth am unrhyw gyfnod, rhaid cadw cŵn o gartrefi gwahanol ar wahân mewn ardaloedd diogel addas. Nid yw giatiau babanod yn addas at ddibenion gwahanu cŵn.
- Caiff cŵn o gartrefi gwahanol eu bwydo ar wahân i leihau’r tebygrwydd o ffraeo a ffyrnigrwydd.

**3.4** Bydd gofyn i'r trwyddedai greu eu hasesiad risg eu hunain. Rhaid i hyn gynnwys plant pan fo angen.

### 4. Adeiladau

**4.1** Rhaid i gŵn fyw yn y cartref fel anifail anwes y teulu. Rhaid i gŵn beidio â chael eu lletya mewn unrhyw adeiladau allanol.

**4.2** Dylai fod gan y safle ei fynediad ei hun, ac ni ddylai fod mynedfa a rennir e.e. grisiau cymunedol

**4.3** Mae'n rhaid bod digon o le, golau, gwres ac awyru i'r cŵn.

**4.4** Cyhyd â'i bod yn rhesymol ymarferol, ni ddylai fod peryglon corfforol neu gemegol mewn unrhyw ardal/ystafell o fewn y cartref y mae gan y cŵn fynediad iddynt, a allai achosi anaf iddynt.

**4.5** Os darperir gwasanaeth casglu a dosbarthu, rhaid cadw cerbyd addas sy'n cydymffurfio'n llawn ag amodau Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/1047/contents/made/welsh

## 5. Rheolaeth

### Hyfforddiant

**5.1** Rhaid darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y deiliad allweddi sy'n cynorthwyo'r trwyddedai yn ystod argyfwng.

### Glendid

**5.2** Dylid cadw pob ardal y mae gan y cŵn fynediad iddo, gan gynnwys y gegin ac ati, yn lân ac yn rhydd rhag casgliadau o faw a llwch. Dylid eu cadw yn y fath fodd fel bod modd rheoli clefydau a chadw cŵn yn gysurus.

**5.3** Dylid symud yr holl garthion a deunydd wedi'i faeddu o bob ardal a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y dydd ac yn fwy aml os bydd angen. Rhaid cytuno ar gyfleusterau gwaredu gwastraff anifeiliaid gyda'r Awdurdod Trwyddedu.

**5.4** Dylid cadw'r ardaloedd lle mae gwelyau yn lân ac yn sych.

**5.5** Dylid darparu cyfleusterau i dderbyn, storio a gwaredu gwastraff yn briodol. Dylai'r man olaf y mae'r gwastraff yn mynd iddo gydymffurfio â rheoliadau gwastraff cyfredol. Dylid gofalu'n benodol bod gwastraff clinigol sy'n deillio o drin cŵn gyda chlefydau heintus, 'PARVO' er enghraifft, yn cael ei gadw ar wahân. Rhaid gwaredu'r gwastraff hwn yn unol â chyfarwyddiadau practis milfeddygol.

**5.6** Dylid cymryd camau i leihau’r peryglon sy’n codi o gnofilod, pryfed a phlâu eraill o fewn y sefydliad.

**Cyflenwadau Bwyd a Dŵr**

**5.7** Dylai fod gan bob ci ddigon o fwyd fel y cyfarwyddir gan ei berchennog.

**5.8** Dylai dŵr yfed ffres fod ar gael bob amser (oni bai y nodir yn wahanol gan lawfeddyg) a dylid golchi’r cynhwysydd yfed bob dydd. Dylid newid y dŵr o leiaf ddwywaith y dydd.

**5.9** Rhaid annog cleientiaid i ddarparu gwely, bowlenni, brwshys ac ati i bob ci. Rhaid glanhau’r eitemau hyn yn aml i atal croes-heintio. Dylai’r Trwyddedai fodd bynnag allu darparu rhagor o ddeunydd gwely.

**5.10** Os nad yw'n cael ei ddarparu gan y cleient, rhaid darparu llestri bwyta ac yfed addas, a phan fo'n briodol, rhaid iddynt allu cael eu glanhau'n hawdd i atal croeshalogi. Dylid hefyd eu cynnal a’u cadw mewn cyflwr glân. Dylid golchi neu waredu bowlenni ar ôl bob pryd, a rhaid i bob ci gael ei fowlen ei hun.

**Cyfleusterau Cegin**

**5.11** Rhaid darparu cynwysyddion sy’n cau’n dynn i storio bwydydd sych. Rhaid storio bwyd amrwd/heb ei goginio, neu weddillion tuniau sydd wedi eu hagor, mewn cynwysyddion nad ydynt yn fetel, nad ydynt yn gollwng, â chaead arnynt, mewn oergell.

**5.12** Dylid cadw swmpau mawr o fwyd mewn cynwysyddion sy’n gallu atal llygod.

## 6. Rheoli Clefydau a Brechu

6.1 Rhaid cymryd camau digonol i atal a rheoli clefydau heintus ac ymledol a pharasitiaid rhag lledaenu ymhlith cŵn, staff ac ymwelwyr, oni bai bod eithriad fel y nodir isod.

6.2 Rhaid profi bod gan gŵn sy'n lletya neu'n byw yn y ganolfan y brechiadau cyfredol ar gyfer Clefyd y Cŵn, Hepatitis Heintus y Cŵn, (canine adenovirus), Leptospirosis (L.canicola ac L. icterohaemorragiae) a Pharfofeirws y Cŵn, peswch y cŵn ac unrhyw glefydau perthnasol eraill.

Brechiadau DHP a LEPTO:
Dylai'r cwrs brechu cyntaf fod wedi ei gwblhau o leiaf bedair wythnos cyn i'r ci gael ei letya, neu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid darparu cofnod o hyn, ar ffurf cerdyn brechu neu, yn ei absenoldeb, hanes clinigol milfeddygol printiedig, a rhaid ei gadw ar y safle drwy gydol y cyfnod y mae'r ci wedi'i letya, a dylai copi o ddogfennaeth o'r fath gael ei wneud a'i gadw am o leiaf 2 flynedd.

Dylid rhoi pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr ac nid oes angen gwrthod lletya ci cyn belled ag y cydymffurfiwyd â hyn, neu os yw'r ci wedi'i eithrio fel y manylir isod. Os na roddwyd pigiadau atgyfnerthu o fewn y dyddiadau sydd yng nghanllawiau'r gweithgynhyrchwr, rhaid i frechiadau ddechrau eto a bydd y cyfnodau cychwynnol ar gyfer gwrthod lletya yn berthnasol.

Gall sefydliadau ddefnyddio eu disgresiwn i fynnu brechiadau 'blynyddol', neu, i dderbyn pigiadau atgyfnerthu yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y brechiadau. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am brawf gan filfeddyg y ci ar ffurf llythyr papur pennawd, e-bost gyda chyfeiriad gwaith, neu gopi o'r hanes clinigol sy'n nodi pa fath o frechiad sydd wedi'i weinyddu a phryd y bydd yn cael ei ail-weinyddu yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr. Rhaid i chi gadw'r prawf hwn am 2 flynedd.

Brechiad Peswch y Cŵn:
Mae 2 fath o frechiadau PC.
Brechiad trwynol: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 3 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i'w letya.
Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a'i fod wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw

dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy’n golygu bod y 3 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau’r gweithgynhyrchwr.

Brechiad y gellir ei chwistrellu: Rhaid rhoi'r brechiad cychwynnol / cyntaf 2 wythnos cyn y gellir derbyn y ci i’w letya.
Os yw'n bigiad atgyfnerthu (h.y. cafodd y brechiad PC y flwyddyn flaenorol) a’i fod wedi’i dderbyn o fewn yr amserlen pigiad atgyfnerthu flynyddol, nid yw dyddiadau lletya wedi'r brechiad yn berthnasol a gall gael ei letya. Ond os na chafodd y pigiad atgyfnerthu o fewn yr amserlen flynyddol yna bydd angen 'ailgychwyn', sy’n golygu bod y 2 wythnos gychwynnol yn berthnasol, neu, yn unol â chanllawiau’r gweithgynhyrchwr.
Y naill ffordd neu'r llall, rhaid i brawf o’r math o frechiad gael ei nodi’n glir ar y cerdyn brechiad neu ar y ffurflen hanes clinigol gan y filfeddygfa a'i weinyddodd, a bydd y cofnod hwn yn cael ei gadw gan y sefydliad lletya.

6.3 **Eithriadau:**
Mae adweithiau niweidiol, neu gyngor gan filfeddygon sy'n credu bod y risg i iechyd ci yn fwy wrth dderbyn brechiad na pheidio, yn brin ond yn digwydd. Felly;

PROFION TITRE ar gyfer DHP:
Bydd y rhain ond yn cael eu derbyn yn lle'r brechiadau ar gyfer cŵn sydd wedi cael adwaith niweidiol, neu, sydd wedi cael cyngor ysgrifenedig gan eu milfeddyg bod y brechiadau’n niweidiol iawn i'r ci penodol hwnnw. Mae hyn yn disodli'r brechiad DHP yn unig.
Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am brawf gan filfeddyg o ganlyniadau’r profion Titre sydd wedi'u cymryd o fewn uchafswm o 12 mis cyn y cyfnod lletya, a thystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith andwyol neu wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad. Rhaid i hyn gael ei gadw gan y sefydliad am o leiaf 2 flynedd.

I gael eithriad rhag derbyn brechiadau LEPTO a PHESWCH Y CŴN rhaid cael tystiolaeth gan y milfeddyg bod y ci wedi cael adwaith niweidiol neu eich bod wedi cael cyngor na ddylai'r ci dderbyn y brechiad a rhaid i'r sefydliad gadw’r dystiolaeth am o leiaf 2 flynedd.

Ar gyfer yr holl frechiadau sydd wedi'u heithrio uchod:

Oherwydd bod mwy o risg, mae'n rhaid i berchnogion unrhyw gŵn eraill sydd i fod i gael eu lletya ar yr un pryd â’r ci sydd heb ei frechu gael gwybod am y sefyllfa ac am y risgiau i'w ci nhw. Yna mae'n rhaid iddyn nhw lofnodi ymwadiad i ddweud eu bod wedi cael gwybod am y risgiau ac yn eu derbyn ac yn parhau i ddymuno i'w ci gael ei letya yn y sefydliad. Dylid cadw’r ymwadiad hwn am o leiaf 2 flynedd. Dylid dilyn y broses hon bob tro y mae ci heb ei frechu yn cael ei letya.

6.4 Rhaid cael prawf o driniaethau parasitiaid gan filfeddyg a chadw cofnod ar gyfer pob ci sy'n mynychu'r sefydliad. Mae hanes clinigol, neu bresgripsiwn ac anfoneb prynu yn brawf priodol ar gyfer hyn. Rhaid diweddaru cofnod pob ci yn unol â gofynion amserlen dosau’r driniaeth. Er enghraifft: Bob mis / Bob 3 mis yn dibynnu ar y cynnyrch.

6.5 Rhaid cymryd rhagofalon i atal lledaeniad chwain, trogod, parasitiaid coluddol ac unrhyw barasitiaid eraill. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o bob triniaeth arferol a brys ar gyfer parasitiaid a roddir i gŵn tra byddant ar y safle.

6.6 Caiff y safle ei drin am chwain a pharasitiaid gyda chynnyrch effeithiol yn ôl yr angen.

6.7 Dylid cael cyngor gan filfeddyg os oes arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Os yw ci yn sâl neu wedi ei anafu, dylid dilyn cyfarwyddiadau milfeddyg ar sut i’w drin, yn fanwl gywir. Rhaid hefyd hysbysu'r perchennog a/neu gyswllt brys, cyn gynted â phosib.

6.5 Rhaid cadw blwch cymorth cyntaf llawn sy’n addas i gŵn ar y safle bob amser, lle mae’n hawdd cael gafael arno.

6.6 Rhaid i’r trwyddedai fod wedi’i gofrestru â phractis milfeddygol sy’n gallu rhoi cyngor a chymorth 24 awr. Dylai practis milfeddygol y cleient fod yn wybyddus, a dylid ymgynghori â nhw os bydd angen. Os na allwch gofrestru gyda'ch milfeddyg lleol mae'n rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r practis agosaf a darparwyr y tu allan i oriau arferol.

6.7 Dylid cael cyngor gan filfeddyg ynglŷn â deunyddiau glanhau rhag ofn eu bod nhw neu eu nwyon yn beryglus i unrhyw anifail arall. Rhaid defnyddio sylweddau glanhau a diheintio y mae DEFRA wedi’u cymeradwyo ar gyfer rheoli clefydau.

## 7 Ynysu ac Achosion o Glefydau Heintus

7.5 Dylid gwahanu cŵn sy'n dangos unrhyw arwyddion o glefyd neu salwch oddi wrth gŵn eraill ar unwaith nes cael cyngor gan filfeddyg. Rhaid bod cyfleusterau digonol o fewn y safle trwyddedig i sicrhau bod modd gwahanu anifail sâl yn effeithiol.

7.6 Rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted â phosibl (heb fod yn hwyrach na diwedd y diwrnod gwaith nesaf) os yw ci yn datblygu unrhyw glefyd heintus.

7.7 Ar ôl digwyddiad o glefyd heintus rhaid i'r safle fynd drwy gyfnod cwarantîn rhesymol cyn gellir awdurdodi'r safle i roi llety i gŵn newydd. Yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn penderfynu ar hyd y cyfnod hwn mewn cytundeb gyda llawfeddyg milfeddygol.

7.8 Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted â phosibl (dim hwyrach na diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar 0300 123 6696) am unrhyw anifail sy'n marw ar y safle trwyddedig. Rhaid i'r trwyddedai drefnu storio'r corff mewn lleoliad milfeddygol nes i'r perchnogion ddychwelyd.

## 8 Cofrestr a Gwybodaeth Arall i'w Chadw

8.5 Rhaid cadw cofrestr o bob ci sydd ar y safle, a rhaid cynnwys y canlynol:

- Dyddiad ac amser cyrraedd
- Disgrifiad o'r ci: enw, brîd, oedran, rhyw.
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad
- Dyddiad ac amser gadael

8.6 Dylai gwybodaeth bellach i'w chadw gynnwys y canlynol:

- Unrhyw system adnabod fel rhif microsglodyn neu datŵ
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyswllt brys yn ystod y cyfnod lletya
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci
- Prawf o frechiadau cyfredol, triniaeth parasitiaid a hanes meddygol
- Manylion unrhyw driniaeth sy'n cael ei gweinyddu tra yn y llety
- Gofynion iechyd, lles, maetheg ac ymarfer corff
- Contract y Cleient
- Unrhyw beth arall ar gais y perchennog

8.7 Rhaid cadw'r holl wybodaeth yn 8.1 ac 8.2 ar gael yn rhwydd i'w harchwilio bob amser ac am o leiaf 2 flynedd a'i chadw mewn modd sy'n caniatáu i swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu a/neu Arolygydd Milfeddygol gael mynediad hawdd ati.

8.8 Os yw’r cofnodion ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi wrth gefn. Rhaid i’r gofrestr fod ar gael i ddeiliad allweddi’r sefydliad ar bob adeg.

## 9 Goruchwyliaeth

9.5 Rhaid i berson addas a phriodol gyda’r profiad perthnasol fod ar gael bob amser i oruchwylio a delio ag argyfyngau pan fydd cŵn yn lletya ar y safle. Ni ddylai’r person hwn fod wedi’i gael yn euog neu fod wedi cael rhybudd ffurfiol am unrhyw droseddau’n ymwneud â lles anifeiliaid.

9.6 Rhaid peidio â gadael cŵn heb oruchwyliaeth am fwy na 3 awr ar y tro.

9.7 Rhaid i gŵn fyw o fewn amgylchedd y cartref a chael cymdeithasu/cyswllt addas gyda'r lletywr.

9.8 Ni roddir trwydded i gartrefi lle mae plant dan 5 oed.

9.9 Ni ddylai unrhyw blant o dan 16 oed fod yn gyfrifol am gi.

## 10 Ymarfer Corff

10.5 Dylid ymarfer y cŵn yn unol â dymuniadau’r perchennog. Os yw'n berthnasol a bod cŵn yn gadael y safle, rhaid eu cadw ar dennyn oni bai bod gennych gontract oddi ar dennyn wedi'i lofnodi gyda'r perchennog. Bydd nifer y cŵn sy'n cael eu cerdded ar unrhyw adeg yn ôl disgresiwn deiliad y drwydded ac yn unol â'i bolisi yswiriant.

10.6 Rhaid bod mynediad uniongyrchol i ardal addas yn yr awyr agored. Rhaid i’r ardal/ardd gael ei defnyddio gan berchennog y tŷ yn unig (ddim

yn cael ei rannu â phreswylwyr eraill). Rhaid i'r ardal fod yn lân ac yn daclus bob amser.

10.7 Dylai ardal ymarfer corff/gardd y safle ac unrhyw ardal arall y gallai'r cŵn gael mynediad iddi, fod yn hollol ddiogel. Dylai'r ffensys fod yn ddigonol i gadw'r ci yn ddiogel ac i'w atal rhag dianc, ac ni ddylai fod â darnau miniog peryglus. Dylid bod modd cloi'r gatiau.

10.8 Os oes pwll, dylid rhoi gorchudd drosto i atal boddi.

10.9 Dylai pob ci wisgo coler a thag adnabod yn ystod eu hamser yn lletya. Rhaid i'r tag ddangos cyfeiriad a rhif ffôn y llety.

10.10 Rhaid rhoi gwybod i berchennog y ci a'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted â phosibl (dim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf) os yw ci yn dianc neu'n mynd ar goll. Rhaid dogfennu pob cysylltiad â'r perchennog, a phob ymdrech i gysylltu.

## 11 Rheolau Tân/Argyfwng

11.5 Rhaid cymryd camau priodol i warchod y cŵn rhag ofn bod tân neu argyfyngau eraill.

11.6 Dylai meddiannwr yr eiddo fod yn ymwybodol o leoliad y cŵn yn yr eiddo bob amser.

11.7 Dylid ystyried yn ofalus lle mae'r cŵn yn cysgu, fel bod modd eu symud yn hawdd yn achos tân, heb beryglu perchnogion yr eiddo.

11.8 Rhaid llunio gweithdrefn rhybudd tân a chynllun gadael adeilad brys – gan gynnwys manylion ynglŷn â lle y dylid symud cŵn yn achos tân neu argyfwng arall. Dylid tynnu sylw pobl sy'n rhan o'r trefniadau i letya'r cŵn yn y cartref at y weithdrefn a'r cynllun, a/neu eu harddangos mewn lle amlwg ar y safle. Rhaid i'r trwyddedai fod â threfniadau addas i gadw'r cŵn dros dro os nad oes modd eu cadw am ryw reswm yn y safle trwyddedig.

11.9 Rhaid cadw cyfarpar diffodd tân ar y safle a rhaid cofnodi eu lleoliad ar y cynllun rhybudd tân. Mae hyn i gynnwys diffoddwr tân gweithredol a

chyfredol.  Rhaid i ddyddiad dod i ben y diffoddwr tân gael ei arddangos, a rhaid cael un newydd pan fo angen.

11.10 Rhaid darparu cyfarpar canfod tân. Mae'n rhaid i'r cartref gael o leiaf 2 synhwyrydd mwg gweithredol mewn unrhyw annedd. Efallai y bydd angen rhagor o synwyryddion mwg mewn eiddo mwy. Mae angen synwyryddion mwg ym mhob ardal y mae gan gŵn fynediad ati.

11.11 Dylid cadw drysau pob ystafell ar gau dros nos.

11.12 Rhaid cynnal a chadw offer a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel. Rhaid peidio â gadael ci mewn ystafell lle mae ceblau neu wifrau rhydd neu’n llusgo ar hyd y llawr, neu sydd wedi’u difrodi.

11.13 Rhaid i bob gwresogydd fod heb berygl o fynd ar dân, fel sy’n rhesymol ymarferol.  Ni ddylid defnyddio offer gwresogi nwy neu olew sy’n sefyll ar ei ben ei hun.

11.14 Fel deiliad allwedd, dylai fod gan berthynas, ffrind neu gymydog o fewn pellter teithio o 15 munud set sbâr o allweddi a modd o fynd i mewn i’r safle mewn argyfwng.  Rhaid rhoi’r manylion hyn i’r Awdurdod Trwyddedu.